

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWIYD AR NOS LUN 21AIN O FAI 2018 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Bari Evans (Cadeirydd), Philip Williams, Stanley Williams, Iwan Jones, Jill Evans, Geraint Jones a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Hywel Davies, Elfed Williams, Falmai Evans a'r Cyngorydd Sir Ddinbych Joseph Welch.

2. DATGAN DIDDORDEB.

Dim yn codi.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 30ain o Ebrill 2018 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd ymateb oddi wrth Swyddog Cynllunio a Chydymffurfiaeth Cyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau'r canlynol ynghyn ar gais cynllunio Maes Carafanau Cae'r Mynydd yn Saron:-

“Mae'r ymgeisydd hyd at 12fed o Fehefin 2018 i orffen rhan gyntaf o'r amod rhif 7 o'r cais cynllunio a hyd at 12fed o Rhagfyr 2018 i orffen yr ail ran o'r amod rhif 7.”

B. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl am ymateb Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar faterion ffyrdd y gymuned a thrafodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.

C. Adroddwyd y Clerc bod y Cyngor wedi trafod mater stad y ffyrdd wrth Y Fron (Prion) a lon Drws-y-Buddel (Saron) ers 2007.

D. Derbyniwyd ymateb oddi wrth Darren Millar, Aelod Cynulliad dros Orllewin Clwyd, yn cadarnhau ei fod wedi trafod gyda'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ynglŷn ar doriad y gyllideb yr “School Beat Project” ac mae Mr Millar wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet Llywodraeth Cymru i ofyn ail ystyried i ariannu'r gwasanaeth i'r ysgolion.

E. Mae'r Cyngorydd Philip Williams mewn trafodaeth gyda Mr Graham Pickles o “Greenfingers” ynglŷn â phrisiau coed plwm Dinbych.

F. Mae Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r cais cynllunio i amrywio amod rhif 1 yn Fron Ystrad, Llanrhaeadr.

5. SEDD WAG Y CYNGOR.

Derbyniwyd un cais ysgrifenedig i lenwi'r sedd wag y Cyngor oddi wrth Arwel Davies, Llwyn Derw, Prion. Penderfynwyd yr aelodau i dderbyn y wybodaeth a chyfethol Arwel Davies yn Aelod o'r Cyngor Cymuned Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch.

6. WEFAN Y CYNGOR.

Penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd.

7. CYLLID.

A. Datganiad Banc £14,352.00.

B. Chadarnhawyd yr aelodau'r “Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2018 ac arwyddwyd gan y Cadeirydd a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Derbyniwyd cadarnhad fod yr “Ffurflen Flynyddol” wedi cael ei archwilio gan yr “Archwiliwr Mewnol”, sef Gwmni Harold Smith o Lanelwy.

C. Taliadau:-

1. Cyngor Sir Ddinbych am gyfarfod y Cyngor - £20.00.
2. Cynghorydd Bari Evans, lwfans y Cadeirydd am y flwyddyn 2017/18 - £250.00.
3. BHIB Ltd. – Yswiriant Blynnyddol y Cyngor - £471.51.
4. Cennin Ltd. – Chostau “Domain a Hosting” wefan y Cyngor - £142.63.
5. Harold Smith - Archwiliwr Mewnol am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2018 - £180.00.

8. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Mae'r Cynghorydd Elfed Williams yn edrych dros y ceisiadau cynllunio canlynol cyn adroddi yn ôl i'r Cyngor gyda'r sylwadau:-

- A: Cais 23/2016/0557 - Datblygu 1.2 hectar o dir drwy godi 33 ac anheddau (cais amlinellol yn cynnwys mynediad a chynllun) at dir wrth Ddolwar, Llanrhaeadr.
- B. cais 23/2018/0361 - Manylion ymddangosiad, tirlunio a graddfa'r anheddau a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 1 o rif cod caniatâd cynllunio 23/2017/0256 ar dir wrth Lys Gwilym, Llanrhaeadr.
- C. Cais 23/2018/0400 – Codi estyniad unlawr ystafell ddosbarth yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr.

9. GOHEBIAETH.

- A. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am “Aelodaeth Un Llais Cymru ar gyfer 2018-19”.
- B. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar waith cyfalaf yn y gymuned yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19:-
1. Hen ffordd Rhuthun heibio'r King's Head yn Llanrhaeadr.
 2. Ffordd Ystrad i Brion.
 3. Ffordd Prion i Lanrhaeadr.
- C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

10. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4), O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y materion ffyrdd canlynol:-

- A: Mynediad newydd heb ganiatâd i'r cae'r ffordd gyferbyn a Thŷ Isa', Prion.
- B. Tyllau ar y ffyrdd heibio Tŷ Cerrig/Pen-y-Gerddi/Fferm y College ym Mhrion a Peniel.
- C. Plât arwydd groesffordd Nant y Cid dal ar goll.

11. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 25ain o Fehefin 2018 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.